

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018 yn Festri Salem am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Lyn Mcfadden, Claire Roberts, Geraint Thomas ac Eryl Owain ynghyd â'r cler, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Sian Anwyl Jones.

Materion personol: Mynegwyd cydymdeimlad â Geraint Thomas a oedd wedi colli ei dad.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 9 Tachwedd 2017 fel rhai cywir.

Materion yn codi:

Toiledau: Nid yw'r camau cyfreithiol i drosglwyddo'r toiledau wedi eu cwblhau gan y Cyngor Sir. Cadarnhawyd mai'r Cyngor Sir fydd yn parhau'n gyfrifol amdanynt tan i hynny ddigwydd. Nodwyd yr angen i gael arwyddion a rhwystrau i atal parcio o flaen y toiledau.

Materion ffyrdd: Cafwyd adroddiad gan y cler o gyfarfod rhyngddo â Kevin Jones o Adran Priffyrdd Cyngor Sir Conwy a chafwyd addewid i roi sylw i amryw faterion o fân atgyweiriadau.

Cadarnhawyd y bydd y Cyngor Sir yn rhoi llinellau gwynion ar ochr y ffordd ger maes parcio *Caffi Conwy Falls*.

Derbyniwyd ateb gan y Cyngor Sir yn nodi bod yr arwydd ger cyffordd yr A5 a ffordd Penmachno sy'n rhybuddio cerbydau rhag dibynnu ar lywio lloeren yn ateb y gofynion cyfreithiol o ran maint ac nad oes bwriad i'w newid. Penderfynwyd gofyn iddynt edrych eto ar leoliad yr arwydd a'r angen am rybudd ychwanegol.

Rhestrwyd nifer o faterion eraill sydd angen sylw, gan gynnwys y ffordd i fyny o Groeffordd, Allt Pen-top a ffordd Hafod-y-rhedwydd.

Loriau trymion ger cyffordd y Felin Wlân: Ar gais yr Aelod Seneddol, Guto Bebb, roedd y cyfarfod wedi ohirio tan 19 Ionawr.

Arwydd Plant yn Chwarae: Y cler wedi cysylltu efo Tai Conwy ac yn aros i gyfarfod gael ei drefnu.

Coed Nadolig: Oherwydd tywydd garw ni fu'n bosib cael coed Nadolig i Cwm na Phenmachno.

Materion Eraill:

Materion Ariannol: Cafwyd amcangyfrif manwl o wariant tebygol a phosibl y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Ar sail hynny, a chan fod swm sylweddol wrth gefn, cynigwyd gan Eryl Owain ac eiliwyd gan Claire Roberts y dylid cadw at yr un braesept, sef £5000. Pasiwyd yn unfrydol.

Penderfynwyd gosod hysbyseb yn *Yr Odyn*, a rhannu gwybodaeth, y byddai'r Cyngor yng nghyfarfod mis Mawrth yn ystyried ceisiadau am roddion ariannol.

Cymeradwyd y taliadau canlynol: G. Evans am dorri mynwentydd - £1400; Capel Salem am logi ystafell gyfarfod - £150; John Burton am dorri gwair ar y llwybrau - £300; Cyngor Sir

Conwy am gostau etholiad - £285; Swyddfa Archwilio Cymru - £215.55 a chwmni R. Thomas a'i fab am atgyweirio'r Cwt Hers a hysbysfwrdd yn Cwm - £925.

Llwybr y Waen: Trafodwyd yr angen am atgyweiriadau a phenderfynwyd gofyn am brisiau.

Mynwent Arwelfa: Penderfynwyd y dylid gofyn i ymwelwyr â'r fynwent fod yn gyfrifol am fynd ag unrhyw sbwriel oddi yno ac y dylid symud y bin sbwriel.

Coed ar Bont Waterloo: derbyniwyd cŵyn bod coed yn tyfu ger y bont yn effiethio ar welediad. Er fod y lleoliad y tu allan i'r plwy', penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

Adroddiad o Bwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri: Eglurodd y Cadeirydd fod toriadau llym i gyllid y Parc. Penderfynwyd pwyso ar Awdurdod y Parc i beidio â thorri ar nifer y wardeniaid ardal gan eu bod yn ddolen gyswllt bwysig rhwng y Parc â chymunedau lleol.

Aseiad Risg: Ystyriwyd cyfrifoldebau'r cyngor a chadarnhawyd bod yswiriant a gweithdrefnau eraill yn ddigonol.

Cod Ymddygiad: Aethpwyd trwy reolau Cod Ymddygiad y Cyngor a chadarnhawyd bod yr aelodau yn ymwybodol ohono ac yn deall yr oblygiadau arnynt.

Gohebiaeth:

Llythyr gan Meddygfa Betws-y-coed: Cais am gyfraniad o £100 tuag at gynllun dosbarthu prescripsiwn. Penderfynwyd cyfrannu'r swm llawn.